**Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus**

## Papur Ategol gan Ysgrifennydd Parhaol (Llywodraeth Cymru)

**15 Ionawr 2021**

---

## Cyflwyniad

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes hir o hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac ymrwymo i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth. Mae'r ffaith nad yw hyn yn beth newydd i ni yn gryfder, ond mae'r disgwyliadau yn llawer uwch o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig gan y dylai'r ddeddfwriaeth atgyfnerthu strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd yn sylweddol.

Rôl gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015') yw helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf a chyflawni eu hamcanion llesiant, yn ogystal â'u hymdrechion i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'r ddeddfwriaeth wedi'i dylunio i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ac felly dylai trefniadau gweithredu a llywodraethu a mecanweithiau'r Llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, wella'n gyson er mwyn ymateb i'r gofynion hyn.

Lluniwyd y papur ategol hwn cyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus graffu ar swyddogion Llywodraeth Cymru ar 1 Chwefror 2021. Felly mae'r papur yn canolbwyntio ar y camau gweithredu a gymerwyd gennyf fel yr Ysgrifennydd Parhaol gyda'r Pwyllgor Gweithredol a swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru.

Ni fydd y papur hwn yn ymdrin â'r materion polisi hynny y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 12 o amcanion llesiant fel yr oedd yn ofynnol gan Ddeddf 2015, ac fe'u cynhwyswyd yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Mae Adroddiad Blynyddol 2019 y llywodraeth yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hyn o dan dair thema'r Prif Weinidog, sef 'mwy ffyniannus, cyfartal a gwyrddach'. Disgwylir i'r adroddiad blynyddol nesaf gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2021 ac, yn unol â Rheol Sefydlog 11.21(ii), disgwylir i Lywodraeth Cymru gynnig trafodaeth ar Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu ym mis Chwefror 2021.

## Trefniadau gweithredu'r gwasanaeth sifil yng Nghymru

Ers i Ddeddf 2015 ddod i rym yn 2017, mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ddyletswydd llesiant wedi effeithio ar bob agwedd ar ein model gweithredu sefydliadol, o'n fframwaith llunio polisïau, ein trefniadau rheoli perfformiad; ein disgwyliadau o ran arweinyddiaeth; a'n prosesau ariannol ac archwilio. Darparodd y sylfaen hefyd ar gyfer fy menter diogelu at y dyfodol. Drwy Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru, rwy'n darparu crynodeb blynyddol o'r camau gweithredu a gymerwyd i gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach yn ein ffordd o weithio. Yn ystod tymor y llywodraeth hon, mae rhanddeiliaid wedi herio Gweinidogion Cymru a'r gwasanaeth sifil mewn ffordd adeiladol am gyflymder newidiadau wrth roi Deddf 2015, a'r newid mewn diwylliant sydd ei angen o ganlyniad, ar waith. Mae'r cyfrifon diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, yn disgrifio sut y gwnaethom fyfyrio ar y ffordd yr oeddem yn cydgysylltu ein hymateb i Ddeddf 2015, a sut y gwnaethom gytuno ar fframwaith gweithredu strategol wedi'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu a chyfleu ehangder a chwmpas

Deddf 2015 yn well o fewn y Llywodraeth. Mae'r fframwaith hwn yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng y canlynol

- rôl **Gweinidogion Cymru** wrth sicrhau'r cyfraniad gorau posibl gan y Llywodraeth at y nodau llesiant drwy bennu amcanion llesiant a'u cyflawni;
- rôl y **Gwasanaeth Sifil** wrth wella'r cymorth a'r cyngor a roddir i Weinidogion Cymru drwy gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein ffordd o weithio;
- ein rôl ni wrth **alluogi eraill** i gyfrannu at y broses o gyflawni'r nodau llesiant a rhoi Deddf 2015 ar waith;
- ein rôl ni wrth helpu i **ddeall Cymru** nawr ac yn y dyfodol drwy waith ar adroddiad tueddiadau'r dyfodol, y dangosyddion llesiant cenedlaethol ac adroddiad blynyddol Llesiant Cymru.

Yn ystod cam cynnar y broses o roi Deddf 2015 ar waith, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a gweithredu blociau adeiladu allweddol er mwyn rhoi dyletswyddau Deddf 2015 ar waith yn llwyddiannus ar lefel genedlaethol; Mae'r rhain yn cynnwys; y canllawiau statudol ar gyfer cyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynghorau cymunedol; y dangosyddion llesiant cenedlaethol sy'n mesur y cynnydd tuag at y nodau llesiant a osodwyd ger bron y Senedd yn 2016; Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol statudol cyntaf Llywodraeth Cymru yn 2017; ac Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru cyntaf y Prif Ystadegydd ym mis Medi 2017. Yn ogystal, rydym wedi darparu amrywiaeth o adnoddau er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Ddeddf 2015, er enghraifft dogfen hawdd ei deall, canllaw hanfodion ac animeiddiad, ac esbonwyr o'r cysylltiadau rhwng Deddf 2015 a deddfwriaeth arall. Mae'r rhain yn ategu gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i thîm sy'n chwarae rhan greiddiol wrth gefnogi'r trefniadau gweithredu cenedlaethol.

O fewn Llywodraeth Cymru, mae pob maes polisi a phortffolio yn gyfrifol am gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei weithgareddau, ei bolisïau a'i drefniadau, ac am gymryd camau i gyflawni amcanion llesiant datganedig y Llywodraeth. Rydym yn cydnabod bod angen i ganol y sefydliad oruchwylio a galluogi'r newid. Canolbwyntiodd gwaith cynnar ar roi Deddf 2015 ar waith yn fewnol ar lunio camau gweithredu mewnol allweddol er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth a dealltwriaeth o'r dyheadau sy'n sail i'r ddeddfwriaeth ymhlith pob aelod o'r staff, ac ar sicrhau y câi'r camau gweithredu hynny eu rhoi ar waith. Gwnaethom ganolbwyntio ar newidiadau i'n gweithrediadau a'n prosesau busnes; ymgysylltu â staff a hwyluso newid mewn ymddygiad; gan ystyried ymgyrch ehangach Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru a'n rôl galluogi.

Diolch i'n gwaith gydag WWF Cymru yn 2017/19, llwyddwyd i feithrin dealltwriaeth gyffredin â rhanddeiliaid o sut y gellir ystyried, deall a chydnabod cynnydd Llywodraeth Cymru wrth weithredu o dan Ddeddf 2015. Drwy gyfres o weithdai, nodwyd pwyntiau i weithredu arnynt ac fe'u cyhoeddwyd yn ‘Pawb Gyda'i Gilydd!’ (2018). Yn fy rhagair i'r adroddiad, croesawais yr ysbryd gydgynhyrchiol a welwyd wrth i swyddogion a chynrychiolwyr o'r trydydd sector fynd i'r afael â'r materion gweithredu. Mae ein trefniadau ymgysylltu parhaus â'r Archwilydd Cyffredinol, Archwilio Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi darparu adborth parhaus a gwersi o ran sut y dylem ymateb i Ddeddf 2015.

*Ymgysylltu â staff a hwyluso newid mewn ymddygiad*

Rwy'n cydnabod bod a wnelo'r Ddeddf yn bennaf â newid ymddygiad a sut y caiff penderfyniadau eu gwneud. Mae'r math o newid parhaus mewn ymddygiad a ddisgwylir gan y ddeddfwriaeth a'r agenda datblygu cynaliadwy yn cymryd amser, ac yn gofyn am welliannau parhaus o ran sut rydym yn arwain; sut rydym yn dysgu; sut rydym yn perfformio; a, sut rydym yn gweithio. Mae'r elfennau hyn yn gweithredu fel sail i'm menter diogelu at y dyfodol, a ddyluniwyd ar y cychwyn er mwyn paratoi'r gwasanaeth sifil yng Nghymru i ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf 2015 ar waith. Mae'n wahanol i raglenni newid blaenorol (gan gynnwys 'Paratoi at y Dyfodol') gan ei bod yn canolbwyntio'n fwriadol ar newid sy'n gysylltiedig â phobl a natur integredig system-gyfan y ffordd rydym yn bwrw ati â'r rhaglen newid ymddygiad. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o Ddeddf 2015 yn y gwasanaeth sifil, gwnaethom ddatblygu naratif craidd; cynnal cyfres o sesiynau gweithdy â'r Uwch Wasanaeth Sifil cyfan; cynnal digwyddiadau sioeau teithiol paratoi at y dyfodol; dosbarthu pecynnau adnoddau i staff ac ardal adnoddau newydd ar y fewnrwyd. Cynhaliwyd digwyddiadau treiddgar hefyd ar gyfer y pum ffordd o weithio ar gyfer y proffesiwn polisi. Diweddarwyd yr holl ganllawiau ar gyfer llunio polisïau a chyngor gweinidogol er mwyn sicrhau bod ystyried y Ddeddf yn rhan o'r gwaith hwn, ac rydym yn adolygu'r sefyllfa yn barhaus. Gwnaethom hefyd ddatblygu pecyn cymorth cyfathrebu cyffredin gyda phenaethiaid cyfathrebu mewnol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Pan fyddwn yn recriwtio, rydym yn disgwyl i ymgeiswyr feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf. Gwyddom o'n Harolwg Pobl yn 2020 fod nifer cymharol uchel o bobl, yn ôl pob tebyg, wedi mabwysiadu'r pum ffordd o weithio yn barod. Yn 2021, byddwn yn ystyried y lefel fabwysiadu hon ymhellach drwy gynnal ymarfer archwilio mewnol o Adrannau er mwyn nodi arferion da a'u rhannu.

*Newidiadau i'n gweithrediadau a'n prosesau busnes*

Rydym yn cydnabod y gallai ein prosesau a'n mecanweithiau fod yn ysgogwr ar gyfer rhoi Deddf 2015 ar waith, yn enwedig o ran y pum ffordd o weithio. Roedd cyflawniadau cynnar yn cynnwys ystyried Deddf 2015 wrth gynllunio busnes, ystyried sut y gellid integreiddio unrhyw effeithiau, rôl y mecanweithiau Rheoli Mewnol a'r datganiad llywodraethu; a, diwygiadau i lythyrau cylch gwaith ac amodau grant. Er mwyn cefnogi'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, gwnaethom weithio gyda'r trydydd sector a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gytuno ar ddiffiniad amlhaenog ar gyfer atal.

Penodwyd Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i arwain ystyriaethau yn y maes ar Fwrdd Llywodraeth Cymru, ac mae Cylch Gorchwyl diwygiedig yn pwysleisio ei rôl wrth roi cyngor strategol yn unol â Deddf 2015. Mae Hyrwyddwr y Bwrdd hefyd yn arwain Grŵp Goruchwylio a Galluogi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef grŵp trawslywodraeth sy'n cynnwys y rheini sy'n gyfrifol am yr elfennau o ddyletswyddau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru sydd o bwysigrwydd statudol neu weithredol o dan y Ddeddf.

Er mwyn helpu i integreiddio polisïau a sicrhau cydlyniaeth, rhoddwyd proses ar waith ar gyfer papurau allweddol y Cabinet a chynhelir "sesiynau herio" gyda swyddogion Llywodraeth Cymru wrth i'r papurau gael eu datblygu er mwyn sicrhau dull trawslywodraeth o lunio polisïau. Cafodd fy null gweithredu mewn perthynas â'r sesiynau hyn ei lywio gan sgyrsiau rheolaidd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn gallu datblygu llinellau ymholi a oedd yn canolbwyntio ar y pum ffordd o weithio. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r sesiynau herio hyn bellach wedi cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyflawni penodedig. Mae'r Bwrdd Cyflawni yn craffu ar y ffordd y caiff ein blaenoriaethau llywodraethol eu cyflawni drwy lens cyfun, gan sicrhau y

gall y Llywodraeth gyfrannu at y broses o gyflawni'r nodau llesiant drwy gydweithio a chymryd camau trawslywodraeth.

### *Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru a galluogi eraill*

Mae ethos Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn cynnwys diben cyffredin ac ysgogwyr cyffredin er mwyn cyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bawb, yn seiliedig ar ganlyniadau Deddf 2015, y pum ffordd o weithio a'r gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gennym.

Mae gwefan Academi Cymru yn darparu adnoddau i arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ac yn hyrwyddo cyfres o ddosbarthiadau meistr a gweithdai sy'n cefnogi ethos Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac yn cefnogi Deddf 2015. Mae Academi Cymru yn tynnu sylw at ei phrif gyflawniadau drwy ei Hadroddiad Blynyddol.

Cyflwynodd Academi Cymru nifer o fodiwlau fel rhan o garfan gyntaf rhaglen Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, a ddyluniwyd gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Academi Cymru er mwyn meithrin sgiliau arweinyddiaeth aelodau ifancach y gwasanaeth cyhoeddus, a fydd yn arwain cenedlaethau'r dyfodol ryw ddydd. Bydd Academi Cymru yn parhau i roi cymorth i garfanau yn y dyfodol. Bydd yr ail gylch o geisiadau ar gyfer Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan, sy'n dechrau ym mis Ionawr 2022, ar agor i bartneriaid o'r sector cyhoeddus/trydydd sector a bydd yn gofyn i sefydliadau ddangos enghreifftiau o gydweithio o fewn rhanbarth a sut mae eu prosiectau yn cefnogi cysyniad Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau rhanbarthol.

Rydym hefyd yn cydnabod yr arferion da a roddwyd ar waith ledled Cymru, a hynny mewn sawl ffordd wahanol. Er enghraifft, ar gyfer Gwobrau Ystadau Cymru a Gwobrau Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan, defnyddiwyd pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i lywio'r broses enwebu gan dynnu sylw at waith gwella sy'n mynd rhagddo ym maes gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru. Mae'r ddwy gyfres o wobrau yn cynnwys categorïau sy'n cydnabod timau a sefydliadau sy'n rhoi Deddf 2015 ar waith fel rhan o'u gwaith.

Ym mis Ionawr 2020, cyflwynwyd y digwyddiad Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf gennym gan ddod ag uwch-reolwyr o bob rhan o'r Gwasanaeth Sifil a'r sector cyhoeddus ehangach ynghyd i rannu arferion wrth roi'r pum ffordd o weithio ar waith. Roedd dros 300 o bobl yn bresennol, a gwnaed y prif anerchiad gan y Prif Weinidog. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad hwn, ac yn parhau i gynnig cyfleoedd i aelodau o staff ddod at ei gilydd a thrafod gwell ffyrdd o weithio yn 2021.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r adolygiad eang a gomisiynwyd gennym o'n trefniadau noddi yn 2018, sef ‘Cyflawni Gyda'n Gilydd – Cryfhau'r Ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n Noddi ei Chyrff Hyd Braich'. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys argymhellion sy'n pwysleisio gallu Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich i gydweithio mewn ffyrdd sy'n gydnaws â Deddf 2015. Mae ein Dogfen Fframwaith yn nodi'r gydberthynas rhwng Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Gweinidogion, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau, a'r telerau a'r amodau yr ydym yn talu cymorth grant iddynt oddi tanynt. Mae'r ddogfen hon, a llythyrau cylch gwaith, yn cynnwys cyfeiriadau a negeseuon cryf i'r cyrff hynny er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn cyfrannu at agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio, cyflwyno adroddiadau ar faterion sy'n ymwneud â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac sy'n gysylltiedig ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

Yn 2019, gwnaethom weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn cyfrannu at Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol Llywodraeth y DU o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy er mwyn sicrhau bod dull gweithredu Cymru yn chwarae rhan gadarn. Gwnaethom hefyd ddrafftio a chyhoeddi dogfen ar wahân, sef 'Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy'. Darparodd y ddogfen hon adolygiad o gyfraniad Cymru at y nodau a'r agenda Datblygu Cynaliadwy drwy fframwaith Deddf 2015. Gan adeiladu ar hyn, gwnaethom weithio mewn partneriaeth â'r Athrofa Astudiaethau Cynaliadwyedd Uwch yn yr Almaen i gyflwyno digwyddiad rhyngwladol, 'Dyma'r Dyfodol', ym mis Mawrth 2020.

Ym mis Mai 2020, ymunodd Llywodraeth Cymru â rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant, ochr yn ochr â'r Alban, Gwlad yr Iâ a Seland Newydd. Ers ymuno â'r rhwydwaith yn gynharach eleni, mae clywed am brofiad llywodraethau eraill wrth roi egwyddorion economeg llesiant ar waith wedi bod o fudd mawr i swyddogion Llywodraeth Cymru. Cawsom gyfleoedd hefyd i rannu ein profiadau ein hunain o ddatblygu polisi yng nghyd-destun Deddf arloesol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn arbennig o fonitro ein cynnydd yn erbyn y nodau llesiant a sefydlwyd yn y Ddeddf, gan ddefnyddio'r dangosydd eang a bennwyd a ddatblygwyd i gynnwys y dimensiynau lluosog sy'n gysylltiedig â llesiant.

**Safbwyntiau ar y rhwystrau i weithredu**

Mae'r ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi tynnu sylw at nifer o rwystrau a chyfleoedd posibl o ran rhoi Deddf 2015 ar waith. Hoffwn amlinellu'r gwaith a wnaed gennym i ddeall rhai o'r rhwystrau allweddol ac ymdrin â nhw.

*Trefniadau cyllido*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ceisio sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn rhoi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor yr hyn a wnânt, ac i gynllunio'n unol â hynny. Yn amlwg, gall hyn fod yn heriol o ystyried mai dim ond am gyfnodau byr y gellir rhoi sicrwydd ariannol. Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi eu bod yn awyddus i fod mewn sefyllfa i ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy. Fodd bynnag, dim ond am un flwyddyn y gallant bennu cynlluniau refeniw a chyfalaf o ganlyniad i benderfyniadau gwariant Llywodraeth y DU. Byddwn yn parhau i bwyso am setliadau ariannol hwy. O ran buddsoddiadau seilwaith, rydym yn gweithio ar ddull gweithredu llywodraeth gyfan er mwyn gwella cysylltiadau ar draws portffolios a sicrhau'r adenillion cyhoeddus mwyaf posibl ar fuddsoddiadau. Yn dilyn y gwaith 'Cyflawni ar y Cyd' yn 2018, rydym yn ystyried sut y gallem symud o ddefnyddio llythyrau cylch gwaith blynyddol, dyfarniadau cyllidebol a chynlluniau busnes i ddull 'Tymor y Llywodraeth' er mwyn gallu cynllunio yn y tymor hwy ar gyfer ein cyrff hyd braich.

*Y dirwedd partneriaethau*

Mae pwysigrwydd cydweithio rhwng gwahanol sefydliadau wrth ddarparu ar gyfer pobl a'r amgylchedd yn rhan hanfodol o ddatblygu cynaliadwy. Cydnabu Deddf 2015 hyn, gan gynnwys cydweithio fel un o'r pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu hystyried. Atgyfnerthwyd y ffordd hon o weithio ymhellach drwy roi trefniadau cydweithio ffurfiol ar waith drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym wedi rhoi cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ers eu sefydlu drwy gyfarfodydd rhwydwaith, gweithdai, clinigau 'galw heibio' a chyllid rhanbarthol ar gyfer gweithgareddau. Mae'r rhain wedi gwella eu gallu a'u hadnoddau i ddatblygu

asesiadau llesiant lleol a chynlluniau llesiant ac i gyflawni yn erbyn y cynlluniau hynny. Mae Uwch-weision Sifil yn aelodau o bob bwrdd ac mae cylch gorchwyl ar gyfer eu rôl fel unigolion a wahoddwyd i fynychu ar ran Gweinidogion Cymru. Rôl cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yw cyflwyno safbwynt cenedlaethol yn ystod cyfarfodydd a sicrhau bod trefniadau gweithredu cenedlaethol a rhanbarthol yn parhau i ymateb i faterion lleol ac atebolrwydd democrataidd lleol.

Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhan o dirwedd ehangach o drefniadau partneriaeth. Er mwyn cydnabod problem gyffredin, sef symleiddio cymhlethdodau wrth i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gydweithio, cynhaliwyd adolygiad o bartneriaethau strategol ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru. Cyflwynwyd adroddiad ar yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol i Gyngor Partneriaeth Cymru ym mis Mehefin. Er y cytunwyd bod y dirwedd partneriaethau yn gymhleth, ni nododd yr adolygiad lawer o gefnogaeth o blaid cael gwared ar bartneriaethau'n gyffredinol na'u huno – yn ôl thema na maes partneriaeth. Cytunodd y Cyngor Partneriaeth ar ddatrysiad pragmataidd yn seiliedig ar arweinyddiaeth leol, a bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso hynny.

*Y dirwedd ddeddfwriaethol*

Mae natur Deddf 2015 yn golygu y bydd Biliau newydd sy'n anelu at newid y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu o bosibl yn rhyngweithio â'r dyletswyddau yn Neddf 2015. Mae ein Llawlyfr Deddfwriaeth yn atgoffa swyddogion y dylent ystyried a fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cyfrannu at y broses o roi'r Ddeddf ar waith wrth ddatblygu deddfwriaeth. Gwnaethom hefyd gyhoeddi Gwneud Penderfyniadau Da yn 2016 er mwyn helpu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau da sy'n gyfreithlon ac sy'n cydymffurfio â'r Rheol Gyfreithiol.

Wrth ddatblygu deddfwriaeth newydd, rydym wedi chwilio am gyfleoedd i egluro cydberthynas y ddeddfwriaeth honno â deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, fel Deddf Cynllunio (Cymru) 2015; Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; a'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil drafft. Yn fwy diweddar, rydym wedi gweithio gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu canllawiau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ystyried cyfleoedd i gymhwyso'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswydd llesiant cenedlaethau'r dyfodol mewn ffordd gydnaws.

*Adrodd*

Bwriedir i'r gofynion adrodd ar gyfer Deddf 2015 weithredu fel modd i sefydliadau nodi sut y maent yn cyfrannu at y nodau llesiant ac yn ymgymryd â gwaith datblygu cynaliadwy. Mae'r canllawiau statudol yn annog cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i adrodd ar gynnydd drwy fecanweithiau sy'n bodoli eisoes, fel mecanweithiau ar gyfer cyflwyno adroddiadau blynyddol, yn hytrach na gwneud hynny heb ystyried gweithgareddau adrodd eraill. Mae'r canllawiau o blaid dull adrodd integredig ac yn annog cyrff i ystyried cyfleoedd i integreiddio'r ffordd y maent yn adrodd ar ddyletswyddau sy'n bodoli eisoes.

## Edrych i'r dyfodol

Mae adroddiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn ogystal â'r gwaith a wnaed gennym gyda'r trydydd sector, yn cynnig amrywiaeth helaeth o syniadau o ran sut y gall gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru

wireddu buddiannau gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy. Ar ddechrau 2020, trafododd y Pwyllgor Gweithredol y rhwystrau mewnol sy'n ein hatal rhag gwireddu buddiannau'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys agweddau fel gwella llywodraeth gydgysylltiedig; defnyddio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol fel llwyfan i greu capasiti ar gyfer ffordd o feddwl hirdymor; rhoi dull ataliol ar waith y tu hwnt i'r gyllideb; a sut y gallwn wella gallu ein proffesiwn polisi. Gwnaethom hefyd gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn dangos arweinyddiaeth amlwg a gwella ein prosesau ar gyfer rhoi gwybod am y newidiadau rydym yn eu gwneud.

Nodais gyfres o gamau gweithredu ychwanegol i'w cymryd er mwyn cynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy yng ngweithdrefnau'r Gwasanaeth Sifil. Byddaf yn mynychu cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili ym mis Ionawr 2021, ac rwyf wedi trefnu cyfarfod ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o sesiwn a gynhelir ddwywaith y flwyddyn i gyfnewid gwybodaeth a gwella ein rôl arwain mewn perthynas â'r Byrddau hyn.